

Cofion

- Mae Helen Mona Rossington (Llanfair) yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn llawdriniaeth, ac yno hefyd y cafodd Barbara Williams (Henllan) ei llawdriniaeth, cyn cael ei symud i'r Inffirmari ddiwedd yr wythnos. Anfonwn ein cofion at y ddwy ohonynt, fel ag at Menna Streeter (Henllan) sy'n dal yn yr Inffirmari ar hyn o bryd. Daeth Geraint Davies (Llansannan) adref o'r ysbyty ganol yr wythnos a pharhawn i gofio amdano ef a'r teulu, ynghyd ag eraill o'r Fro sy'n derbyn triniaeth y dyddiau hyn. Diolchwn amdanynt, a chyflwynwn hwy i'r Arglwydd, gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwylio dros eu hanwyliaid yr un modd. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod agosrwydd yr Arglwydd yn eu cynnal.
- Estynnwn ein dymuniadau gorau i Ywain ap Rhys (Llansannan) a Fiona ar eu priodas yn Lymington y penwythnos yma, a bendithion lu iddynt i'r dyfodol.
- ... a llongyfarchiadau calonnog i'w dad, Rhys Dafis (Llansannan) a fydd yn cael ei anrhydeddu gan yr Orsedd ac yn derbyn y wisg wen yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro eleni. Go dda yn wir!

Gwirio Ffurflenni CRB

Mae nifer ohonoch sy'n ymddiriedolwyr ac/neu'n wirfoddolwyr yn y gwahanol eglwysi wedi derbyn ffurflen Datgeliadau Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) i'w llenwi a'i gwirio. (Mae'n rhaid ail-wirio ar ôl 4 blynedd.)

Fe soniais cyn y Pasg ei fod yn fwriad gennym i drefnu noson yn lleol i wirio'r ffurflenni. Mae'r trefniadau hynny wedi eu gwneud ar gyfer **nos Iau, Mehefin 30ain** yn Festri Capel Groes, rhwng 7.00 ac 8.00 yr hwyr. Cofiwch y bydd angen dogfennau adnabod arnoch (gwelwch y rhestr ar gefn y daflen cyfarwyddiadau a gawsoch hefo'r ffurflen). Os byddwch angen unrhyw wybodaeth pellach, mae croeso i chi gysylltu â Carol neu Sian yn swyddfa'r Panel Diogelwch Cydenwadol (01745 817584 / pdpowen@aol.com).

I ddod

- Bydd **Martyn Geraint** yn dod draw i'r Fro i oedfa'r bore ein Sul **i-Grist** eleni a gynhelir ar Orffennaf 3ydd yn Llansannan. Yna, bydd cyfle pellach ar ôl yr oedfa i gymdeithasu ac i gael picnic yn y Brenig. Bydd trefniadau eraill wedi eu gwneud os na fydd y tywydd yn ffafriol.
- Cynhelir **Cystadleuaeth Pêl-droed 5-bob-ochr** yng Ngherrigydrudion nos Lun, Gorffennaf 11eg. Bydd tair cystadleuaeth: Bl.2,3 a 4; Bechgyn Bl. 5+6; a Merched Cynradd. Enwau i Anne Lloyd (01490 420589) erbyn Gorffennaf 8fed.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12^{fed} Mehefin 2011

Oedfa Arbennig i'r Fro ar y thema
'Gwario Amser i Brynu Amser' yn
Llansannan heno am 6.00.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da! Dathlwn Sul y Pentecost heddiw gyda'n holl frodyr a chwiorydd yng Nghrist ar draws y byd. Cofiwn am dywalltiad yr Ysbryd a gweddiwn am dywalltiad nerthol newydd o'r Ysbryd a'i ddawn wrth i ni gydaddoli'r Arglwydd Iesu.

Cefais brofiad chwithig yr wythnos yma o adael mudiad y bum yn ei gefnogi ers 1981 ac un y bum yn ymddiriedolwr iddo ers tair blynedd – yr Alcohol Education and Research Council. Mudiad ydi hwn sydd yn ariannu gwaith ymchwil pwysig i leihau y niwed a ddaw yn sgil alcohol. Profiad digon cymysglyd ydi gadael rhywbeth ar ôl. Tristwch yn gymysg ag edrych ymlaen at gael fwy o amser i bethau eraill – ac ychydig o falchder hefyd bod rhywrai wedi elwa gobeithio o'n hymdrechion. Ond mae'n debyg mai digon tila ydi dylanwad y pethau gorau a wnawn wrth edrych yn ôl. Lle peryglus ydi trê'n i hel meddyliau!

Mor wahanol ydi meddwl am y daioni tragwyddol y mae Iesu wedi ei 'adael ar ôl' a'r hyn yr ydym yn ei ddathlu heddiw sef anfoniad yr Ysbryd Glân. Gadael ei dangnefedd, ei lawenydd a'r Ysbryd a wnaeth yr Iesu (Ioan 14:27). Gadael ei waith gogoneddus, gorffenedig! Edrych yn ôl a meddwl – Ia! Job dda! "Gorffenydd!" Ei Dad yn edrych yn ôl a dweud yr un peth! Yr eglwys ar hyd y canrifoedd yn edrych yn ôl ac yn cytuno hefyd!

Roedd Iesu wedi rhybuddio'r disgyblion mai bywyd creulon y byddent yn ei gael er ei fod Ef am atgyfodi ac esgyn yn ôl at ei Dad i fod yn Arglwydd y byw a'r meirw. Ond yna mae o'n addo gadael rhywun arbennig iddynt a fyddai am fod o werth mawr iddynt.

Dyna beth yr ydym yn ei ddathlu heddiw! Iesu yn cyflawni ei addewid ac yn gadael yr Ysbryd Glân, a thrwy adael yr Ysbryd fe roedd Ef ei hun yn aros hefo nhw!! Dydi'r Cristion byth yn unig. Mae'r Ysbryd yn cael ei roi 'i aros am byth' yn ein calonau i'n diogelu trwy orthrymderau mawr bywyd, trwy angau hyd yn oed nes y cawn weld Iesu 'fel y mae'. Yr 'edrych yn ôl' ydi unig sail ein hyder wrth edrych ymlaen.

Edrychwn ymlaen heddiw at gwmni Meirion yn Oedfa'r Fro. Bu'n paratoi oedfa arbennig ar y thema 'Gwneud Amser i Brynu Amser' a gobeithio y medrwch ymuno â ni. Prif neges yr Oedfa ydi'r alwad i neilltuo amser i weddio am bresenoldeb ac arweiniad yr Ysbryd Glân yn ein bywyd o ddydd i ddydd. Dyma ein baint a'n galwedigaeth oherwydd pan ddaw yr Ysbryd mae'r eglwys yn edrych ymlaen mewn gwirionedd ac yn trysori pob eiliad i glodfori'r Arglwydd.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma
- **Cymanfa Ganu'r Annibynwyr** yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 2.30. Yr arweinydd fydd Ruth Owen, Llanddaged. Croeso i bawb.
 - Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** ar y thema 'Gwario Amser i Brynu Amser' yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Meirion yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
 - Cynhelir **Cymanfa Ganu** yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 8.00. Yr arweinydd fydd Mr Ian Woolford a cheir eitemau gan Gôr Meibion Betws yn Rhos. Dewch â Chaneuon Ffydd hefo chi.
- Llun
- **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
 - **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- Mercher
- **Cwrs i Flaenoriaid ac Aelodau Eglwysi'r Henaduriaeth** yn Nhrefnant am 7.00.
- Iau
- **Cwrdd Chwarter** yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7.00 gyda'r Parch. Andrew Lenny, Llywydd yr Annibynwyr yn annerch.
- Sadwrn
- **'Dewch i Ddathlu'** – parti i ddathlu 200 mlwyddiant Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Ngholeg y Bala rhwng 10.30 a 3.30. Diwrnod o gemau, drama, dawnsio, sgwrsio, addoli a llond trol o hwyl i'r teulu cyfan. Dewch â phicnic!
- Sul nesaf
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd cyflwyniad ar waith Cymorth Cristnogol ac oedfa o weddi deuluol yng Nghewn Meiriadog am 10.30, a chinio cynnil i ddilyn – oedolion £5, plant £1, gyda'r elw i Gymorth Cristnogol. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Ni fydd oedfa nac Ysgol Sul yn Llanfair heddiw.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Meilir, mab bach Dei ac Eurgain, yn cael ei fedyddio. Gweinyddir y cymun ar derfyn yr oedfa. Bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn y bedydd, a'r oedolion am 11.10.
- Mawrth
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf
- Bydd y Parch T L Williams yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf
- Y Parch T L Williams fydd yn arwain yr oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma
- Bydd Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfarfod i drafod yr adeiladau a hefyd trip y plant. Bydd aelodau Capel Peniel yn mynd ar bererindod i weld eglwysi ym Mhen Llŷn ac yn cael cinio yn Nant Gwrtheyrn.
- Sul nesaf
- Y Parch John Robinson fydd yn arwain yr oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma
- Bydd aelodau Capel Henllan yn mynd ar bererindod i weld yr eglwys yn y Bala ac yn cael cinio yn Frongoch. Mynd ar bererindod fydd aelodau Capel Groes hefyd a hynny i Eglwys Pennant Melangell, gan alw am swper ar y ffordd adre.
- Sul nesaf
- Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Bydd Ysgol Sul undebol i'r plant yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Bydd Mr Owain Roberts yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghewn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.